

**GRŴP CYFEIRIO STRATEGOL AR DDULL YSGOL GYFAN DROS IECHYD
MEDDWL A LLESIANT EMOSIYNOL**

**DYDDIAD Y CYFARFOD CYNTAF 24 IONAWR 2019,
YSTAFELL CYDWELI, CP2**

Eitem 1: Y Sawl sy'n Bresennol, Croeso a Chyflwyniadau

Presennol	
Jason Pollard (JP), Cadeirydd	Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol mewn Ysgolion, AGC, Llywodraeth Cymru
Clare Van Boheman Hunter (CVBH)	Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol mewn Ysgolion, AGC, Llywodraeth Cymru
Craige Wilson (CW)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Mary O'Grady (MoG)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Powys
Christine Overs (CO)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Helen James (HJ)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Powys
Rachel Burton (RB)	Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
Tim Opie (TO)	CLILC
Chris Alders (CA)	Awdurdod Lleol Caerdydd
Amani Hussan (AH)	Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
Deb Austin (DA)	Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc
Kirrin Davidson (KD)	Swyddofa'r Comisiynydd Plant
Sarah Stone (SS)	Y Samariaid
Sara Moseley (SM) (ar gyfer Nia Evans)	Mind Cymru
Liz Mander (LM)	Gofal
Sharon Lovell (SL)	Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol
Rhian Morgan Ellis (RME)	Ysgol Gyfun Cwm Rhondda
Jacinta Tan (JT)	Anhwylderau Bwyta, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro Morgannwg
Annabel Lloyd (AL) (ar gyfer Sally Jenkins)	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Zahrah Bashir-Hicks (ZH)	Diverse Cymru
Hugh Russell (HR) (ar gyfer Frances Beecher)	End Youth Homelessness
Lorna Bennett (LB) (ar gyfer Sue Mabley)	Iechyd Cyhoeddus Cymru
David Tutton (DT) (Ysgrifenyddiaeth)	Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol mewn Ysgolion, AGC, Llywodraeth Cymru
Ymddiheuriadau	
Angela Lodwick	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Cath Norton	Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

Lynzi Jarman	Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru
Joanne Hopkins	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ann John	Hunanladdiad a Hunan-niwed, Prifysgol Abertawe
Vanessa Young	Cyddfederasiwn y GIG
Lynne Neagle	Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1.1 Agorodd JP y cyfarfod am 14:05.

1.2 Croesawodd yr aelodau i gyfarfod cyntaf y Grŵp Cyfeirio Strategol cyntaf ac esboniodd gefndir y cyfarfod, yn benodol argymhellion adroddiad *Cadernid Meddwl* y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n tynnu sylw at nifer o bryderon. Efallai mai'r pwysicaf o'r rhain yw plant a phobl ifanc nad ydynt yn cyrraedd trothwyon penodol ac na allant fanteisio ar y gwasanaethau cymorth y gallai fod yn ofynnol iddynt eu cael ar frys.

1.3 Rhannodd JP hefyd fanylion y gweithdy amlasiantaethol a gynhaliwyd ym mis Medi 2018 a helpodd i lunio nifer o syniadau ac a arweiniodd at y penderfyniad gan y Gweinidog Iechyd a'r Gweinidog Addysg i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydweinigol er mwyn sicrhau y gellid cyflwyno'r newidiadau angenrheidiol yn gyflym. Roedd yn ymwybodol bod y term 'dull ysgol gyfan' yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol ond, yn y bôn, mae ein gweledigaeth ar y cyd yn fodel sy'n golygu bod ysgolion wrth wraidd y gymuned (y prif hwb i bob pwrpas), gyda'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol o'u hamgylch.

1.4 Esboniodd JP y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydweinigol ym mis Hydref 2018 lle y cytunwyd y byddai'r Grŵp Cyfeirio Strategol yn cael ei sefydlu er mwyn llywio'r gwaith ar gyflymder, gan hyrwyddo arfer da ar gyfer y dyfodol.

Eitem 2: Cylch gorchwyl ac aelodaeth

2.1 Gan symud ymlaen i'r Cylch Gorchwyl (a oedd wedi cael ei rannu ag aelodau'r grŵp yn y gorffennol), eglurodd JP y byddai cyfarfod nesaf y Grŵp Cyfeirio Strategol yn dilyn amserlen (ymlaen llaw) cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydweinigol a oedd eisoes mewn calendrau ar gyfer mis Mawrth, mis Mehefin a mis Hydref eleni. Felly, roedd yn debygol y byddai cyfarfodydd nesaf y Grŵp Cyfeirio Strategol ym mis Mai a mis Medi eleni.

2.2 Roedd y Cylch Gorchwyl hefyd yn cynnwys manylion aelodaeth y Grŵp Cyfeirio Strategol ac roedd JP yn awyddus i gael safbwyntiau'r sawl a oedd yn bresennol ar b'un a oedd y grŵp yn cynnwys y cymysgedd cywir o brofiad a ph'un a oedd angen unrhyw gynrychiolaeth arall.

2.3 Roedd LB ac SM am wybod p'un a fyddai papur sefydlog gan y Grŵp Cyfeirio Strategol yn cael ei gyflwyno ym mhob un o gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Cyd-weinidogol. Cadarnhaodd JP mai dyna oedd diben y rhaglen waith fanwl a oedd ar yr agenda i'w thrafod yn nes ymlaen.

2.4 Holodd TO a oedd cynrychiolaeth gan bobl ifanc ar yr agenda hon ac esboniodd CVBH y gwaith roedd hi'n ei wneud gyda grŵp o 24 o bobl ifanc (y 'Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid') a recriwtiwyd yn benodol gan Lywodraeth Cymru a rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith. Dosbarthodd CVBH bapur (copi yn Atodiad A) gan amlinellu'r cefndir i'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ar 23 Ionawr.

2.5 Cadarnhaodd CVBH y byddai'r papurau a'r cofnodion ac ati o'r Grŵp Cyfeirio Strategol yn cael eu rhannu â'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid ac i'r gwrthwyneb. Bydd y bobl ifanc yn nodi eu hagenda eu hunain ar gyfer pob un o gyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid a bydd yr aelodau hefyd yn cael cyfle i fynd i gyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol ynghyd â chyfarfodydd ein Grŵp Cyfeirio Strategol. Cadarnhaodd DA (sy'n cynnal cyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid ar y cyd â CVBH) hefyd fod gan y plant a'r bobl ifanc eu meysydd diddordeb eu hunain a'u bod yn cael eu hannog i ddewis eu hunain pa is-grwpiau o'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid yr oeddent am weithio arnynt er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad *Cadernid Meddwl*.

2.6 Nododd AH mai ystod oedran y bobl ifanc ar y Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid oedd 25 oed a throsodd a nododd bod y rhan fwyaf o wasanaethau iechyd meddwl yn mynd i fyny at 18 oed. Cadarnhaodd DA mai gwaith y Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc ar hyn o bryd oedd cwmpasu effaith y cyfnod pontio craidd 0-25 oed ac felly ei bod yn bwysig bod ystod oedran y Grŵp Rhanddeiliaid Ieuencid yn adlewyrchu hynny.

2.7 Gan ddychwelyd i drafod cynrychiolaeth, roedd AH o'r farn y dylid cynrychioli gwasanaethau seiciatrig i oedolion ar y Grŵp Cyfeirio Strategol. Roedd JP a DA o'r farn bod angen mwy o feddwl ar hyn a chytunodd DA i'w drafod â chydweithwyr yn y Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc.

Cam Gweithredu 1: DA i drafod cynrychiolaeth seiciatrig ar y Grŵp Cyfeirio Strategol â Carol Shilabeer, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Rheolwr y Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc.

2.8 Cafwyd consensws cyffredinol gan aelodau'r Grŵp bod angen cynrychiolaeth rhieni. Cytunwyd hefyd y byddai'n ddymunol cael mwy o gynrychiolwyr o ysgolion ar y Grŵp.

Cam Gweithredu 2: DT i weithio gyda chydweithwyr perthnasol yn Llywodraeth Cymru er mwyn nodi cynrychiolydd/cynrychiolwyr rhieni addas ar gyfer y Grŵp Cyfeirio Strategol a hefyd mwy o gynrychiolwyr o ysgolion.

2.9 Pwysleisiodd TO fod angen cynrychioli gwaith ieuenctid ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol a'i fod yn fodlon gweithredu fel cyswllt er mwyn hwyluso hyn ar gyfer y bobl ifanc.

2.10 Cadarnhaodd JP fod disgwyl i'r Gweinidogion ddychwelyd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg er mwyn adrodd ar gynnydd yn y Gwanwyn.

2.11 Mewn tirwedd brysur iawn, awgrymodd AL y byddai'n ddefnyddiol cael diagram yn dangos y llinynnau gwaith amrywiol sydd ar y gweill ar y maes pwysig hwn o ddatblygu polisi.

Cam Gweithredu 3: DT i ddsbarthu diagram ar y llinynnau gwaith amrywiol i aelodau'r grŵp.

Cam Gweithredu 4: JP i ail-nodi ffocws y Cylch Gorchwyl a DT er mwyn dosbarthu i aelodau'r grŵp.

Eitem 3: Rhaglen waith ac adroddiad ar gynnydd

3.1 Gan weithio'n gyflym drwy'r rhaglen waith ddrafft, nododd JP fod angen mewnbwn gan aelodau'r grŵp er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben. Esboniodd JP fod y rhaglen waith wedi'i rhannu'n 5 maes blaenoriaeth (fel y nodir yn y golofn gyntaf ar y chwith), ac mai dyma yw prif ffocws gwaith y grŵp hwn a gofynnodd i'r aelodau ystyried yn ofalus p'un a yw ei chynnwys yn gyflawnadwy ac i ystyried eu rôl eu hunain yn cyflawni'r gwaith pwysig hwn.

3.2 Cyfeiriodd JP hefyd at y cyhoeddiad diweddar gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai £7.1m ychwanegol (a fydd ar gael ar gyfer 2019-20) ar gael i ddiogelu, gwella a chefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru. Cadarnhaodd y bydd y cyllid yn cefnogi gwaith ein Grŵp Cyfeirio Strategol.

3.3 Yna, cafwyd trafodaeth gyffredinol ar yr hyn y bydd gwasanaethau eiriolaeth yn ei gynnig ym maes iechyd a hefyd rôl CAMHS mewn ymyriadau cynnar. Roedd JT o'r farn bod angen egluro'r maes hwn – yn benodol rôl CAMHS arbenigol yn cyrraedd y 'canol coll'. Nododd CVBH fod rhywfaint o hyn yn cael ei gwmpasu yn eitemau 4-6 o'r rhaglen waith ond roedd yn derbyn bod angen ei egluro'n well.

3.4 Tynnodd aelodau'r Grŵp sylw at hunanladdiad a hunan-niwed fel maes hynod bwysig y mae angen gwneud rhagor o waith arno. Roedd JP yn ymwybodol o'r gwaith pwysig a wneir gan Ann John a'i thîm ym Mhrifysgol Abertawe, a fydd yn arwain at gyhoeddi adolygiad o farwolaethau plant yng Nghymru ym mis Mawrth 2019.

3.5 Yna, cafwyd trafodaeth bellach ar b'un a ellid sgiwio'r rhaglen waith o blaid y model meddygol ac roedd MoG o'r farn efallai bod rhai o'n mentrau yn cael eu categorio'n anghywir mewn rhai achosion. Er enghraifft, roedd o'r farn bod prosiectau peilot mewngymorth CAMHS yn deitl camarweiniol iawn am fodel anfeddygol sydd wedi'i gynllunio i helpu athrawon i nodi a chefnogi disgyblion â phroblemau iechyd meddwl ar gam cynnar.

3.6 Gan gyfeirio at gam gweithredu 23 (ar gyfer plant sy'n derbyn gofal), cadarnhaodd AL fod partneriaethau rhanbarthol eisoes yn cyflwyno ceisiadau ar gyfer y math hwn o wasanaeth. Roedd eraill o'r farn nad oedd rhai o'r camau gweithredu (29 er enghraifft) yn cynnwys amserlenni na chymau gweithredu penodol. Nododd JP fod angen gwneud mwy o waith ar hyn ac ar feysydd eraill ac y byddai'r tîm yn gweithio gydag aelodau'r Grŵp er mwyn nodi camau gweithredu penodol ar gyfer y meysydd hyn. Cadarnhaodd hefyd ei fod yn fodlon i'r aelodau rannu'r rhaglen waith â chydweithwyr sy'n gweithio yn y maes.

Cam Gweithredu 5: Aelodau'r Grŵp i edrych yn fanwl ar y rhaglen waith ac adrodd yn ôl i DT â sylwadau o fewn tair wythnos (erbyn dydd Gwener 22 Chwefror 2019)

Eitem 4: Creu is-grwpiau

4.1 Esboniodd CVBH fod y rhaglen waith ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydweiniogol yn cynnwys 31 o gamau gweithredu ar wahân ac er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn fwy cyflawnadwy ar gyfer y Grŵp Cyfeirio Strategol, roedd o'r farn y byddai'n well rhannu'r Grŵp yn 5 is-grŵp i fynd i'r afael â'r pum thema (a chynnwys aelodau penodol) fel y nodir isod:

Gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant cyffredinol ysgol gyfan	Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru, CLIC, CYDAG, Cydlynedd ADY, rhanddeiliad addysg, cynrychiolydd seicoleg addysgol, arbenigwyr academiaidd, Chwaraeon Cymru, cynrychiolwyr byrddau iechyd, y trydydd sector, gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion
Cwricwlwm	Cynrychiolydd undeb, cynrychiolydd llywodraethwyr ysgol, Hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Diverse Cymru, y trydydd sector
Dysgu proffesiynol – addysg	Cynrychiolydd undeb, rhanddeiliad addysg, Cydlynedd ADY, CLIC
Gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant ysgol gyfan/system gyfan wedi'u targedu	Cynrychiolwyr bwrdd iechyd, Coleg Brenhinol Seiciatreg, cwnsela, Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc, arbenigwyr academiaidd, cydffederasiwn y GIG, y trydydd sector, gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion
Llesiant ac eiriolaeth system gyfan	Y trydydd sector, swyddfa'r Comisiynydd Plant, Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru, cynrychiolydd llywodraethwyr ysgolion,

	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Uned Gyswllt yr Heddlu, Diverse Cymru
--	--

4.2 Gofynnodd i aelodau'r Grŵp feddwl yn benodol sut y gallent gyfrannu'n ddefnyddiol at yr is-grwpiau ac awgrymwyd y gellid gwneud hyn naill ai drwy e-bost neu mewn grwpiau bach gan alw ar feysydd arbenigedd gwahanol yn ôl yr angen.

Cam Gweithredu 6: DT i e-bostio aelodau'r grŵp yn gofyn i bob un neilltuo ei hun i is-grŵp neu is-grwpiau cyn gynted â phosibl

4.3 Yn y drafodaeth a ddilynodd, nododd DA nad oedd rhai o'r meysydd yn cyfateb rhwng y rhaglen waith a'r is-grwpiau, ac addawodd y byddai camau priodol yn cael eu cymryd i'w cysoni. Nododd hefyd orgyffwrdd posibl gyda'r Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc a rhoddodd sicrwydd i aelodau'r Grŵp y byddai hyn yn cael ei ddiwygio er mwyn sicrhau nad oedd achosion o ddyblygu diangen.

Cam Gweithredu 7: DA i weithio gyda JP er mwyn sicrhau cysondeb priodol rhwng y rhaglen waith a themâu'r is-grwpiau a hefyd er mwyn sicrhau and oes achosion diangen o ddyblygu rhwng y gwaith hwn a gwaith y Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc.

4.4. Roedd SL o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r is-grwpiau enwebu arweinydd ar gyfer pob maes er mwyn sicrhau y caiff y camau gweithredu a gynigir ganddynt eu monitro a'u cyflawni o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd rhai aelodau hefyd o'r farn y byddai'n werth cynnal cyfarfod cyntaf pob is-grŵp ar sail ffisegol ac ar sail rithwir (h.y. dros e-bost) yn dilyn hynny. Roedd AH o'r farn bod angen i bob is-grŵp gynnwys cynrychiolwyr o feysydd gwahanol er mwyn sicrhau sail sgiliau a phrofiad cytbwys.

Eitem 5: Unrhyw Faterion Eraill/Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Roedd JT o'r farn ei bod yn bwysig iawn ystyried y ffordd y mae'r Grŵp hwn yn tryfalu i waith grwpiau ac ymgyrchoedd eraill – er enghraifft yr ymgynghoriad *Pwysau Iach: Cymru Iach* sydd wrthi'n ceisio sylwadau ar gynigion er mwyn atal a lleihau achosion o ordewdra yng Nghymru. Cadarnhaodd JP fod swyddogion yn sicrhau bod y cysylltiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud â grŵp arall, er enghraifft y Fframwaith Gwasanaethau Nyrsio mewn Ysgolion diwygiedig sy'n berthnasol iawn i'r agenda iechyd meddwl a llesiant presennol.

5.2 Cadarnhaodd JP y dylai cyfarfod nesaf y Grŵp Cyfeirio Strategol gael ei gynnal ym mis Mai 2019, yn fuan cyn dyddiad 3ydd cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol.

Cam Gweithredu 8: DT i drefnu cyfarfod nesaf y Grŵp Cyfeirio Strategol rywbryd ym mis Mai 2019.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:35.

Atodiad A

Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Dull ysgol gyfan dros iechyd meddwl a llesiant

Er mwyn sicrhau llais ieuenctid cryf drwy agenda'r dull ysgol gyfan, rydym wedi sefydlu grŵp rhanddeiliaid ieuenctid i gynghori a chyd-gynhyrchu polisiau gyda ni. Mae'r grŵp hwn wedi'i rannu rhwng tîm dull ysgol gyfan Llywodraeth Cymru a rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc, a chaiff ei hwyluso drwy Plant yng Nghymru.

Gwnaethom wahodd ceisiadau gan blant a phobl ifanc 14-25 oed ledled Cymru. Roedd cyfnod y cais yn rhedeg o 29 Tachwedd 2018 i 10 Ionawr 2019. Gwnaethom dderbyn 67 o geisiadau i gyd. O'r ceisiadau hyn, gwnaethom ddewis 24 i fod yn rhan o'r prif grŵp, gyda rhestr fer o 5 ymgeisydd wrth gefn rhag ofn y bydd pobl yn gadael y grŵp.

Cyfranogwyr:

Gan edrych ar y grŵp cyfan, mae'n ymddangos bod gennym gymysgedd amrywiol o gyfranogwyr:

Oedrannau: 13-16 oed = 12 o bobl ifanc *neu:* 13-17 = 15

17-24 oed = 10 o bobl ifanc *neu:* 18-24 = 7

Ardaloedd Awdurdod Lleol: Abertawe/Castell-nedd Port Talbot, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd, Ceredigion, Conwy, Powys, Sir Benfro, Sir Gâr, Wrecsam

O Gaerdydd (7) y daw'r nifer mwyaf o'r aelodau ond mae un ohonynt yn fyfyrwr ac mae cyfeiriad ei gartref yng Ngwynedd.

Amrywiaeth: ymysg yr aelodau mae pobl o'r grwpiau canlynol: Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, Plant sy'n Derbyn Gofal, Gofal gan Berthynas, Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, Sbectrw m Awtistig, anabledd corfforol, Sipsiwn a Theithwyr, mudwyr o'r UE, siaradwyr Cymraeg, Nam ar eu Clyw (nid yw'r person hwn wedi derbyn ei le eto).

Cyfarfod cyntaf

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yng Nghaerdydd ar 23 Ionawr 2019 rhwng 11am a 3:30pm. Oherwydd yr amserlenni caeth, dim ond wythnos a hanner o rybudd a gafodd y cyfranogwyr am y cyfarfod ond er hyn, roedd y presenoldeb yn gadarnhaol, gyda 18 o bobl ifanc yn bresennol yn ystod rhywfaint o'r cyfarfod neu drwy'r cyfarfod cyfan.

Yn ystod hanner cyntaf y cyfarfod, cynhaliwyd gweithgareddau torri'r garw, trafodwyd termau cyffredin a ddefnyddir wrth siarad am iechyd meddwl a llesiant, ac ysgrifennwyd Bil Hawliau ar gyfer aelodau o'r grŵp.

Ar ôl cinio, rhoddodd Llywodraeth Cymru a swyddogion Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc gyflwyniad byr ar y dirwedd bresennol o gymorth iechyd meddwl a llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc. Yna rhannodd y grŵp yn ddau er mwyn trafod sut le fyddai eu byd â llesiant perffaith. Roedd hanner y grŵp yn canolbwyntio eu hymdrechion ar greu ysgol llesiant ac roedd yr hanner arall yn archwilio'r hyn y gallai cymunedau ei wneud yn wahanol er mwyn cefnogi llesiant.

Roedd naws cadarnhaol iawn i'r diwrnod ac roedd yr holl bobl ifanc a oedd yn bresennol yn awyddus i gyfrannu at gefnogi gwaith Llywodraeth Cymru a Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc. Roedd y gwaith hwyluso gan Plant yng Nghymru yn wych a galluogodd bob person ifanc i ymgysylltu yn y dull o'u dewis, ac wrth adael y cyfarfod, roedd pob aelod eisoes yn edrych ymlaen at y cyfarfod nesaf.

Bydd y grŵp yn cyfarfod nesaf ar 6 Ebrill 2019.